# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 20 Mai 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(267)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 5 a 7. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 2, 4 a 7 gan y Dirprwy Weinidog Iechyd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd y cwestiynau.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

### 4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel

Dechreuodd yr eitem am 14.27

**NDM5764 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar helpu pobl ifanc i gael gwaith

Dechreuodd yr eitem am 15.10

**NDM5763 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.53

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig a'r Gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5765 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi nad yw Cyllid Cymru yn diwallu anghenion busnesau bach ledled Cymru a bod mynediad at gyllid yn parhau i fod yn broblem i lawer o fusnesau bach a chanolig;

2. Yn croesawu'r posibilrwydd o Fanc Datblygu i Gymru, fel y cydnabyddir yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Athro Dylan Jones-Evans; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried rhinweddau'r cynigion a amlinellir yn 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru' a, lle y bo'n briodol, ystyried eu hymgorffori yn y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru ei rhoi i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 39 | 48 |

**Gwrthodwyd y Cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**TYNNWYD YN ÔL**

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 1, ar ôl 'diwallu', mewnosod 'yn llawn'.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 9 | 48 |

**Derbyniwyd Gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 2, dileu 'Yn croesawu'r posibilrwydd o Fanc' a rhoi yn ei le 'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Banc'.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 9 | 48 |

**Derbyniwyd Gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i ddatblygu Banc Datblygu i Gymru sydd wedi'i gynllunio i:

a) cefnogi busnesau bach i gael mynediad at gyllid a chymorth;

b) datblygu cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys allforio a mewnfuddsoddi; ac

c) ariannu prosiectau seilwaith mawr, a fyddai hefyd yn egluro rôl Cyllid Cymru yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 44 | 48 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5765 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi nad yw Cyllid Cymru yn diwallu yn llawn anghenion busnesau bach ledled Cymru a bod mynediad at gyllid yn parhau i fod yn broblem i lawer o fusnesau bach a chanolig;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Banc Datblygu i Gymru, fel y cydnabyddir yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Athro Dylan Jones-Evans; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried rhinweddau'r cynigion a amlinellir yn 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru' a, lle y bo'n briodol, ystyried eu hymgorffori yn y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru ei rhoi i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 4 | 48 |

**Derbyniwyd y Cynnig wedi'i ddiwygio**

## 7 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 16.48

## 8 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 16.50

**NDM5766 Keith Davies (Llanelli)**

Ysgogi'r economi yng ngorllewin Cymru.

Defnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i hybu twf.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.12

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015**